



Cylchlythyr Drindod 2009

Cyfarchion cynnes yn enw'r Duw sy'n Un: Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Rydym yn ffyddiog y bydd y nodiadau estynedig hyn yn ffynhonnell anogaeth. Gofynnwn hefyd am eich gweddïau ar gyfnod sy'n cynnwys sawl bendith a her.

Yn gyntaf, yr her fwyaf. Fe olygodd y trafodaethau hynny sy'n parhau o gylch cwestiwn newidiadau arfaethedig i EYMI a'r modd y caiff y cyrff ecwmenaidd cenedlaethol ei hariannu o hyn ymlaen lawer o waith ychwanegol yn nhermau cynnig fformiwla ariannu teg a chyfredol i'r eglwysi a'r enwadau hynny sy'n aelodau o Cytûn. Dros y blynyddoedd diwethaf hyn fe elwodd Cytûn lawer o gael ei ariannu drwy'r 'gronfa gyffredin' a weinyddwyd gan EYMI. Cafwyd penderfyniad y dylai'r cyrff ecwmenaidd cenedlaethol ddychwelyd i gael eu hariannu o hyn ymlaen yn uniongyrchol gan eu haelodau. Y mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn cynnig sawl her newydd.

Cafwyd sawl bendith. Bu dathliadau cenedlaethol ac addoliad cyhoeddus yn uchel ar agenda Cytûn. Eleni, penderfynodd yr Urdd y dylai dathliad agoriadol yr Eisteddfod yng Nghaerdydd fod yn aml ddiwylliant ac yn aml grefydd. Gofynnwyd i Cytûn, gan adeiladu ar ein profiad helaeth o hyrwyddo dathliadau cenedlaethol cyffelyb, i gynorthwyo'r trefnwyr. Rhagwelir y bydd yr Urdd yn dychwelyd i batrwm mwy traddodiadol y flwyddyn nesaf. Diddorol oedd gweld sut y gwelodd cymunedau ffydd eraill ymrwymiad y ffydd Gristnogol i'r greadigaeth a'r amgylchedd mewn goleuni newydd. Y mae gwasanaethau hefyd yn cael eu trefnu. Gofynnwyd i Cytûn unwaith eto i gynorthwyo Ffederasiwn yr Heddlu gyda threfnu Gwasanaeth Coffâd Cenedlaethol yr Heddlu sydd i'w gynnal yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ar 27ain o Fedi, 2009.

Fe aeth y trefniadau hynny sy'n sicrhau mynediad am ddim i wasanaeth agoriadol Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn arbennig o dda. Cydweithiodd Cytûn ag awdurdodau'r Eisteddfod Genedlaethol drwy gasglu enwau'r rhai sydd am gael tocynnau ar gyfer yr addoliad agoriadol. Fe ddylai'r rhai a ofynnodd am docynnau erbyn y dyddiad cau ar ddydd olaf Mai dderbyn eu tocynnau yn ystod y dyddiau nesaf. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â'r swyddfa am ragor o fanylion ynghylch cael tocynnau sy'n rhad ac am ddim i'r gwasanaeth.

Ar nodyn bugeiliol, bu'r Parchedig Peter Trow yn ein gweddïau yn Cytûn. Ni fu'n dda ei iechyd yn ddiweddar. Gobeithiwn a gweddiwn y bydd ei iechyd yn gwella'n fuan. Gwerthfawrogwyd ei waith yn nhermau datblygu syniadau ar gyrff noddï yn ogystal â'i waith

litwrgaidd. Gofynnwn am eich gweddïau dros Peter a'i deulu. Rhoddwyd peth o amser Peter yn rhodd i Cytûn gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Materion Ffydd a Threfn - Ar yr adeg hon o hoelio sylw ar y Drindod, addas yw nodi bod cyn gymaint o waith Cytûn wedi ei osod ar addoli, tystiolaethu a gweinidogaeth. Profwyd egni a chyfeiriad newydd yng ngwaith Cyngor yr Eglwysi Rhyddion a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Rhian Linecar sy'n arwain Cytûn ar faterion ffydd, trefn a thystiolaeth a bu'n gweithio'n galed yn ystod yr wythnos diwethaf ar nifer o faterion:

- Hyrwyddo tystiolaeth yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Amaethyddol Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol
- Rhedeg pabell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd ym Mehefin
- Cynrychioli Cytûn yn Orymdaith a Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng Nghaerdydd
- Cynrychioli Cytûn ar Fforwm Caplaniaeth y Goleulong
- Mynychu cyfarfodydd mewn ymdrech i sefydlu caplaniaeth llawn amser yn ystod y Sioe Amaethyddol Frenhinol
- Cefnogi Hyfforddi Swyddogion Ecwmenaidd EYMI yn Abaty Launde
- Chwarae rôl gefnogol wrth hyrwyddo gwaith Grŵp Ysgrifenywyr EYMI a bod yn rhan wedi hynny yng ngweithgaredd y tîm sy'n cwblhau deunydd ar gyfer yr Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol 2010
- Bod yn rhan o Brosiect Datblygu Cenhadaeth Drefol a chyrrff eraill sy'n trefnu'r 'Adfywiad Trefol' ar 17eg o Fehefin 2009 – diwrnod o weddi a thrafodaeth ynghylch presenoldeb Cristnogol mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru
- Ymateb i'r wybodaeth a ddaeth o'r enwadau ynghylch cyrsiau *Croeso i Gymru* blaenorol ac ymwneud â'r enwadau mewn trafodaethau parthed creu cwrs *Croeso i Gymru* newydd sy'n meddu ar amcanion dysgu mwy eglur; golyga hyn na fydd y cwrs a gafodd ei grybwyll yn y cylchlythyr diwethaf yn digwydd yn yr hydref.

Un o'r prosiectau eraill sy'n parhau yw ceisio sicrhau bod Cymru'n nodi'r digwyddiad eciwmenaidd 'Caeredin 2010: Tystiolaethu i Grist Heddiw', sy'n coffáu Cynhadledd Genhadol y Byd, digwyddiad allweddol a gynhaliwyd yng Nghaeredin yn 1910. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael dros y misoedd nesaf.

Materion Cyhoeddus - Cwblhawyd gwaith sylweddol yn y maes cyhoeddus. Chwaraeodd Cytûn ran, yng nghwmni cymunedau ffydd eraill, wrth osod mewn lle ymateb priodol i unrhyw pandemic o'r fflw a all ddigwydd. Bydd cymunedau ffydd yng Nghymru yn

gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy drosglwyddo gwybodaeth a gofalu bod eglwysi'n fwyaf arbennig yn derbyn y wybodaeth sydd ei angen.

Mae presenoldeb Cytûn ar Gonfensiwn Cymru Gyfan yn parhau fel y dygir y cyfnod ymgynghorol ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i ben. Rhagwelir y bydd adroddiad y Confensiwn yn cael ei gyhoeddi ynghyd a'i ddarganfyddiadau yn yr hydref. Y mae'n arwyddocaol bod Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn am enwebiad o eiddo cymunedau ffydd Cymru i wasanaethu ar y Confensiwn.

Mae Swyddog Polisi Cytûn yn y Cynulliad Cenedlaethol, Geraint Hopkins, yn parhau i wasanaethu cymunedau ffydd Cymru ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe fu'n arwain ar ran Cytûn yng nghyswllt nifer o fentrau:

- Sefydlu **Grŵp Ymgynghorwyr Eiddo'r Eglwysi** fel datblygiad ecwmenaidd i gyd-drefnu gwaith ar adeiladau hanesyddol a chysylltiadau â Cadw
- Cytuno i gydweithio â **Dolen Cymru** i ddarparu'r eglwysi ar gyfer dathlu 25 mlynedd yn 2010 ers lansio Dolen Lesotho Cymru.
- Hyrwyddo ymateb y Fforwm Rhyngwladol i'r helyntion yn **Sri Lanka** gan gadw golwg ar ddiogelu lleiafrifoedd crefyddol
- Gweithio ar y datblygiadau nesaf ar yr **Ymgynghoriad Ynglŷn â'r Opsiynau ar Gyfer Newid y System Rhoi Organau**
- Gweithio gyda Phwyllgor Ymgyrchu Etholiadol y Grwp RADAR er mwyn cynhyrchu datganiad ar sail gwerthoedd ar sut y dylai etholiadau gael eu hymgyrchu, heb ddiffyg goddefgarwch a hiliaeth, er enghraifft
- Rhoi blaenoriaeth i gydweithio â **Christnogion yn Erbyn Penydio**.

Apêl RNIB - I'ch atgoffa ymhellach! Yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008, cychwynnodd Cytûn a'r RNIB ar bartneriaeth, gan lansio apêl ar y cyd, yn y gobaith o godi digon o arian i gynhyrchu'r Beibl mewn Braille Cymraeg. Byddai'n galondid pe bai'r £5,192 sydd ei angen er mwyn cynhyrchu Efengyl Matthew mewn Braille wedi'i godi erbyn Eisteddfod y Bala.

Gellir anfon sieciau at RNIB Cymru, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD. Ffôn: 029 2045 0440.

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071